

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 18 IONAWR 2022

Yn Cynghorydd Walker(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ahmed, Berman, Cowan, Henshaw, Lister, Mackie
a/ac Williams

55 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dyweddod y Cynghorydd Lister y byddai'n ymuno â'r cyfarfod am 5pm oherwydd ymrwymadau gwaith.

56 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd diddordeb personol gan y Cynghorydd Joel Williams yn Eitem 4 fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr Cartrefi Gofal Cartref yng Nghaerdydd.

57 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

58 : STRATEGAETH RHEOLI PERFFORMIAD A DATA - I DDILYN

Dyweddod y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai'r cyd-destun ar gyfer y craffu hwn oedd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd perchnogaeth o'i welliant ei hun a datblygu system perfformiad a llywodraethu sy'n caniatáu ar gyfer yr asesiad blynyddol o berfformiad, y gall panel allanol penodedig ei adolygu.

Mae'r fframwaith perfformiad newydd y mae'r Cyngor yn bwriadu ei roi ar waith yn cynnwys ymgysylltu â chraffu fel rhan sylweddol o lywodraethu perfformiad yng Nghaerdydd, ochr yn ochr â'r rôl ffurfiol a roddir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y Ddeddf. Felly, roedd hwn yn gyfle i Aelodau ystyried sut mae'r Cyngor yn ymateb i fodloni'r gofynion deddfwriaethol newydd ac i wneud sylwadau ar y Fframwaith Perfformiad a Chynllunio a'r Strategaeth Ddata cyn adroddiad i'r Cabinet naill ai ym mis Chwefror neu fis Mawrth 2022.

Dyweddwyd wrth yr Aelodau mai un adroddiad yw hwn gyda dwy strategaeth wahanol ond cysylltiedig ac, o'r herwydd, rhannwyd y cyflwyniad yn ddwy. Byddai cyfle ar ddiwedd y cyflwyniad Rheoli Perfformiad ar gyfer cwestiynau cyn symud ymlaen i gyflwyniad y Strategaeth Ddata.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, gyda chyfrifoldeb portffolio dros Adnoddau Dynol; Paul Orders, Prif Weithredwr; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; Kane Woodking, Uwch Ddadansoddwr Busnes mewn Adnoddau, Gwasanaethau Digidol; Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a

Phartneriaethau; Dylan Owen, RhG Polisi a Gwelliant a Chris Lloyd, Rheolwr Systemau Menter a Data.

Ar gyfer adran gyntaf yr eitem hon, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau agoriadol byr. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ac ar ôl hynny fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng y Panel Perfformiad Mewnol a'r Panel Perfformiad Cymheiriaid Allanol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Weinyddiaeth nesaf yn sefydlu'r Panel Perfformiad Cymheiriaid Allanol a'i Gylch Gorchwyl, ond yn y bôn y byddai'n Dasg Gorchwyl a Gorffen tra bod y Panel Perfformiad Mewnol yn cymryd rhan yn y broses ar dri phwynt drwy gydol pob blwyddyn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Ddeialog Perfformiad Cadarn a gofynnwyd a oedd y system bresennol o ddau DPP y flwyddyn yn ddigon ac a ddylid cael trafodaethau mwy rheolaidd rhwng staff a rheolwyr. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn y canllawiau newydd y byddai angen iddynt roi arweiniad ar sgiliau i reolwyr gyflawni hyn yn gyson ar draws y sefydliad. Yn sicr, roedd angen sgysiau o safon rhwng y staff a'r rheolwyr yn rheolaidd.

Croesawodd yr Aelodau'r cipluniau chwarterol a gynigiwyd a gofynnwyd a fyddai'r rhain yn edrych ar dueddiadau a sut y gallai cyfarwyddiaethau gywiro materion sy'n peri pryder yn fewnol yn gyflym. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod uwch reolwyr yn cael gwybod os nodir bod data perfformiad yn broblem, a bod hyn yn cael ei drafod ar y lefel uchaf.

Trafododd yr Aelodau hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar ddata perfformiad a dywedwyd wrthynt y byddai llawer o hyfforddiant sefydlu ar gael ar ôl yr etholiadau ym mis Mai, nodwyd bod hyfforddiant perfformiad yn bwysig.

Er bod yr Aelodau'n croesawu'r fframwaith newydd a'r cynnydd a wnaed hyd yma, gofynnwyd am ganlyniadau posibl os oedd gostyngiad mewn perfformiad mewn rhai meysydd neu'r Cyngor cyfan. Esboniwyd y byddai'r panel cymheiriaid allanol yn cyhoeddi adroddiad i Weinidogion ac roedd potensial ar gyfer sancsiynau a/neu ymyriadau i'r Cyngor.

Wrth drafod lle y byddai'r gyllideb yn eistedd yn y Fframwaith Perfformiad newydd, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai adroddiadau ar wahân o hyd, ond roedd y Cyfarwyddwyr yn cydnabod y cysylltiad rhwng Gwybodaeth Cyllid a Pherfformiad. Os oes gorwariant, disgwylir cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag ef gan y Cyfarwyddwr gan ei fod yn gwbl ymwybodol o'r terfynau gwariant y cytunwyd arnynt.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig nad yw'r ddau banel perfformiad yn dyblygu gwaith nac yn gorgyffwrdd.

Ar gyfer ail ran yr eitem hon, gwahoddodd y Cadeirydd Gareth Newell i wneud cyflwyniad agoriadol. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ac ar ôl hynny fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Datganwyd diddordeb personol gan y Cynghorydd Joel Williams yn Eitem 4 fel Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr Cartrefi Gofal Cartref yng Nghaerdydd.

Croesawodd yr Aelodau'r system newydd, yn enwedig y gallu posibl i weld trosolwg cyfannol o wasanaethau a sut y maent yn cysylltu â'i gilydd. Gofynnodd yr Aelodau am amserlen ar gyfer hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor yn arwain ar hyn ac y bydd yn cwblhau ei elfen o'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf, a disgwylir i gyrff eraill gael eu cwblhau mewn 18/24 mis.

Trafododd yr Aelodau y gwahaniaeth y maent wedi'i brofi drwy gydol y pandemig yng ngwasanaethau'r Cyngor gyda staff yn gweithio gartref. Roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod rhywfaint o waith yn cael ei wneud ar hyn, gan gymharu perfformiad cyn y pandemig â gweithio gartref yn ystod y pandemig.

Gofynnodd yr Aelodau sut y caiff y blaenoriaethau data eu dewis a dywedwyd wrthyn nhw eu bod yn cael eu pennu gan amcanion gwella ar hyn o bryd ond bydd hyn yn symud tuag at arweinwyr perfformiad wrth symud ymlaen pan fydd uwchsgilio wedi digwydd.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

59 : YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2022/23

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hwn yn gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Setliad Dros Dro a modelu cyllideb y Cyngor, ynghyd â newyddion am yr ymgynghoriad ar y gyllideb. Atgoffwyd yr Aelodau bod Ymgynghoriad Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 bellach yn fyw ar ôl cytuno arno mewn Cabinet arbennig yr wythnos diwethaf. Felly, tasg y Pwyllgor oedd cyfrannu at yr ymgynghoriad a bwydo unrhyw bryderon a sylwadau i'r Cabinet i lywio trafodaeth y Cabinet wrth baratoi eu cynigion cyllideb terfynol ar gyfer 2021/22, a fyddai'n dod gerbron y pwyllgor ym mis Chwefror.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol cryno. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ac ar ôl hynny fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd posibilrwydd y byddai'r Dreth Gyngor yn cynyddu a dywedwyd wrthynt na chafodd hyn ei ystyried fel opsiwn cyntaf, byddai trafodaethau yn yr wythnosau nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau am dreuliau Covid, gan ofyn pa gynllunio oedd ar y gweill ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Ebrill pan fydd y gronfa galedi yn dod i ben ac am y posibilrwydd o don arall. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y setliad yn hael, ond pe bai ton arall yna byddai trafodaeth ar draws y DU a chyda Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau faint o arian a gafwyd o'r gronfa Caledi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a sut mae'r ffigur hwn yn helpu i gynllunio ar gyfer unrhyw donnau yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion y byddent yn rhannu'r wybodaeth a gyhoeddwyd am hyn, sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau monitro a hefyd yn adroddiad y gyllideb i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror - byddent yn gweld y cynllunio ar gyfer hyn.

Gofynnodd yr Aelodau am arbedion a dywedwyd wrth yr Aelodau fod lefel y setliad wedi caniatáu ffocws ar effeithlonrwydd yn hytrach nag arbedion gan wasanaethau rheng flaen. Gan ofyn a oedd ysgolion yn cael eu holi am arbedion effeithlonrwydd, dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod nhw.

Wrth drafod Budd-dal y Dreth Gyngor, roedd yr Aelodau'n falch bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd yn hyn ond nodwyd y gallai colli Grantiau'n gyffredinol i'r Cyngor fod yn risg ac y byddai'n cael ei fonitro.

Nododd yr Aelodau fod canlyniadau Arolwg Holi Caerdydd wedi rhoi blaenoriaeth i Blant ac Oedolion Agored i Niwed a gofynnwyd a oedd hyn wedi effeithio ar y cynigion. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai rhai prosiectau bob amser nad oeddent wedi'u nodi fel blaenoriaeth ond a fyddai o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Gofynnodd yr Aelodau am lefel yr arbedion effeithlonrwydd a dywedwyd wrth yr Aelodau fod £9 miliwn o arbedion effeithlonrwydd yn cael eu ceisio. Nid oedd data cymaradwy gydag awdurdodau lleol eraill ar gael ar hyn o bryd.

Trafododd yr Aelodau ymgysylltiad pobl ifanc â'r arolwg a nodwyd bod yn rhaid i hyn fod ar-lein oherwydd y pandemig. Cydnabuwyd bod ymgysylltu â phobl ifanc yn bwysig a byddai'n parhau i fod yn ffocws wrth symud ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor weld Arolwg Holi Caerdydd cyn iddo fynd allan y tro nesaf, gan nodi eu bod wedi gofyn am hyn ar sawl achlysur o'r blaen ond nad ydynt wedi'i gael.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

60 : BUSNES Y PWYLLGOR

Roedd yr Aelodau wedi cael yr ohebiaeth a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor yn ystod tri mis olaf 2021, a lle bo angen, ymatebion y Cabinet hyd yma.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Panel Perfformiad yn cyfarfod â'r Cabinet a swyddogion yn anffurfiol ddydd Llun 14 Chwefror am 11.30am i drafod targedau'r Cynllun Corfforaethol ac anogwyd yr Aelodau i fod yn bresennol.

61 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

62 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

23 Chwefror 2022, 10.00am

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm